Press release | 11.09.2018

# Buddugoliaeth ar gyfer cydraddoldeb ieithyddol yn Senedd Ewrop

## Datganiad gan ASE CRhE Jill Evans (Cymru)

Mae Senedd Ewrop wedi cymeradwyo adroddiad gan ASE Plaid Cymru **Jill Evans**, sy'n galw am weithredu ar lefel yr UE i bontio'r bwlch digidol rhwng ieithoedd Ewrop.

Mae'r adroddiad yn edrych ar y defnydd o ieithoedd mewn technoleg digidol ac yn gwneud nifer o argymhellion i'r Comisiwn Ewropeaidd.

Er bod y Comisiwn yn cydnabod bod yn rhaid i'r Farchnad Sengl Ddigidol fod yn amlieithog, nid oes unrhyw bolisi cynhwysfawr Ewropeaidd i fynd i'r afael â phroblem rhwystrau iaith digidol.

Cymeradwywyd yr adroddiad gan 592 o ASEau, gyda dim ond 45 yn erbyn a 44 yn ymatael eu pleidlais, gan roi hwb sylweddol i'r ymgyrch ar gyfer diogelu ieithoedd bychain Ewrop yn ddigidol.

Dywedodd **Jill Evans ASE**:

*"Rwy'n falch bod Senedd Ewrop yn cytuno â'm barn bod angen cymryd camau i fynd i'r afael â'r bwlch digidol rhwng ieithoedd Ewropeaidd.*

*"Mae'n rhaid i ddinasyddion Ewropeaidd allu manteisio ar y byd digidol a chael mynediad iddo yn iaith eu hunain, gan gynnwys ieithoedd lleiafrifol. Bydd hyn yn gofyn am fuddsoddiad ac arweinyddiaeth ar lefel yr UE.*

*"Mae hwn yn gyfle enfawr i'r UE ddangos ymrwymiad go iawn i gydraddoldeb iaith, i siaradwyr holl ieithoedd Ewrop, gan gynnwys y Gymraeg.*

*"Mae fy adroddiad yn galw am gyfres o fesurau a fydd yn mynd ymhell tuag at gyflawni hynny."*

Mae'r adroddiad yn galw ar yr UE:

(1) i wella'r fframweithiau sefydliadol ar gyfer polisïau technoleg iaith,
(2) i greu polisïau ymchwil newydd i gynyddu'r defnydd o dechnoleg iaith yn Ewrop,
(3) i ddefnyddio polisïau addysg er mwyn sicrhau dyfodol cydraddoldeb ieithyddol yn yr oes ddigidol,
(4) i gynyddu'r gefnogaeth i gwmnïau preifat a chyrff cyhoeddus i wneud gwell defnydd o dechnolegau iaith.

**Recommended**

News



[About the EFA Group](#)

16.07.2024

Press release



[European Free Alliance Group Congratulates French MPs …]

08.07.2024

Press release



Diana Riba i Giner Elected as President of the EFA Gro…

18.06.2024

Press release



EFA Group stament on the passing of Josep Maria Terric…

17.04.2024

**Responsible MEPs**



Jill Evans

Member

**Please share**

- [E-Mail]